OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 1806 (Cy.138)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005

*Wedi'u gwneud - - 5 Gorffennaf 2005*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(1)*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) o ran mesurau sy'n ymwneud ag atal, lleihau a dileu llygredd sy'n cael ei achosi gan wastraff, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 2(2) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

## RHAN 1

CYFFREDINOL

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Teitl y Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym fel a ganlyn —

(a) Rhannau 1, 2, paragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 12 ac, at ddibenion y paragraff hwnnw yn unig, yn Rhan 5, rheoliadau 59(3) ac Atodlen 9 a rheoliad 74 ar 6 Gorffennaf 2005; a

(b) y gweddill, ar 16 Gorffennaf 2005.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 1 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

### Y Gyfarwyddeb Wastraff ac ystyr Gwastraff

**2.**—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn —

(**1**) S.I. 2005/850.
(**2**) 1972 p.68.

(a) ystyr "y Gyfarwyddeb Wastraff" ("*the Waste Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC(**3**) ar wastraff fel y'i diwygiwyd gan —

(i) Cyfarwyddebau'r Cyngor 91/156/EEC(**4**) a 91/692/EEC(**5**);

(ii) Penderfyniad y Comisiwn 96/350/EC(**6**); a

(iii) Rheoliad (EC)Rhif 1882/2003(**7**); a

(b) ystyr "gwastraff" ("*waste*") yw unrhyw beth—

(i) sy'n wastraff(**8**) at ddibenion y Gyfarwyddeb Wastraff; a

(ii) yn ddarostyngedig i reoliad 15, nas gwaharddwyd o rychwant y Gyfarwyddeb honno gan Erthygl 2 o'r Gyfarwyddeb honno.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at amodau'r Gyfarwyddeb Wastraff yn gyfeiriad at yr amodau a osodwyd yn Erthygl 4 o'r Gyfarwyddeb honno, sef, sicrhau bod gwastraff yn cael ei adfer neu ei waredu heb beryglu iechyd dynol a heb ddefnyddio prosesau neu ddulliau a allai niweidio'r amgylchedd ac yn benodol—

(a) heb beri risg i ddŵr, aer, pridd a phlanhigion ac anifeiliaid;

(b) heb beri niwsans drwy sŵn neu arogleuon; ac

(c) heb effaith andwyol ar gefn gwlad neu fannau o ddiddordeb arbennig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I2** Rhl. 2 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

### Y Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus

**3.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus" ("*the Hazardous Waste Directive*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC(**9**) ar wastraff peryglus, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 94/31/EC(**10**).

(2) Mae cyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at—

(a) Atodiad I, Atodiad II neu Atodiad III yn gyfeiriad at yr atodiad i'r Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus a rifwyd felly, fel y nodir yr atodiad hwnnw yn y Rheoliadau hyn fel a ganlyn—

(i) Atodlen 1, sy'n dangos Atodiad I (Categorïau neu fathau generig o wastraff peryglus a restrwyd yn ôl eu natur neu'r gweithgaredd a'u cynhyrchodd);

(ii) Atodlen 2, sy'n nodi Atodiad II (Cyfansoddion gwastraffoedd yn Atodiad I.B sy'n eu gwneud yn beryglus pan fydd ganddynt y nodweddion a ddisgrifir yn Atodiad III); a

(iii) Atodlen 3, sy'n nodi Atodiad III (Nodweddion gwastraffoedd sy'n eu gwneud yn beryglus);

(b) mae nodweddion peryglus yn gyfeiriad at y nodweddion a geir ac a nodir yn Atodiad III.

(**3**) OJ Rhif L 194, 25.7.1975, t.39.
(**4**) OJ Rhif L 78, 26.3.1991, t.32.
(**5**) OJ Rhif L 377, 31.12.1991, t.48 (fel y'i diwygiwyd drwy Gorigendwm, OJ Rhif L 146, 13.6.2003, t.52).
(**6**) OJ. Rhif L 135, 6.6.1996, t.32.
(**7**) OJ Rhif L 284, 31.10.2003, t.1.
(**8**) Mae Erthygl 1(a) o'r Gyfarwyddeb Wastraff yn diffinio "waste" fel unrhyw sylwedd neu eitem yn y categorïau a nodir yn Atodlen I (Categorïau o Wastraff) i'r Gyfarwyddeb honno y mae'r deiliad yn cael gwared arno neu arni neu'n bwriadu gwneud hynny neu y mae'n ofynnol iddo gael gwared arno neu arni.
(**9**) OJ Rhif L 377, 31.12.1991, t.20 (fel y'i cywirwyd drwy Gorigendwm i Gyfarwyddeb 91/689/EC (OJ Rhif L 23, 30.1.1998 t.39).
(**10**) OJ Rhif L 168, 2.7.1994, t.28.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Rhl. 3 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

## Y Rhestr Wastraffoedd

**4.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Penderfyniad y Rhestr Wastraffoedd" ("*the List of Wastes Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2000/532/EC(**11**) ar 3 Mai 2000 yn disodli Penderfyniad 94/3/EC sy'n sefydlu rhestr wastraffoedd yn unol ag Erthygl 1(a) o Gyfarwyddeb y Cyngor 75/442/EEC ar wastraff a Phenderfyniad y Cyngor 94/904/EC sy'n sefydlu rhestr o wastraffoedd peryglus yn unol ag Erthygl 1(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 91/689/EEC ar wastraff peryglus, fel y'i diwygiwyd gan y diwygiadau i hynny sy'n effeithiol o dro i dro o ran Cymru yn unol â Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd;

ystyr "Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd" ("*the List of Wastes Regulations*") yw Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005(**12**); ac

ystyr "y Rhestr Wastraffoedd" ("*the List of Wastes*") yw'r rhestr wastraffoedd a nodir ym Mhenderfyniad y Rhestr Wastraffoedd fel y'i nodir o bryd i'w gilydd yn Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd, sef y rhestr y cyfeirir ati yn indent cyntaf Erthygl 1(4) o'r Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus a luniwyd ar sail Atodiadau I a II, a honno'n rhestr a chanddi un neu fwy o'r nodweddion a restrir yn Atodiad III, gan gymryd i ystyriaeth darddiad a chyfansoddiad y gwastraff ac, os oes angen, gwerthoedd terfyn y crynodiad.

(2) Mae cyfeiriad yn y Rheoliadau hyn ynglŷn â'r ffaith bod unrhyw wastraff—

(a) "wedi'i restru fel gwastraff" ac "wedi'i restru fel gwastraff peryglus" yn cyfeirio at y ffaith bod y gwastraff hwnnw wedi'i restru fel gwastraff, neu fel gwastraff peryglus, yn ôl y digwydd, yn y Rhestr Wastraffoedd, ar yr amod, yn achos gwastraff y mae gwerth terfyn o grynodiad yn gymwys iddo, mai dim ond pan fo'r gwerth terfyn perthnasol o grynodiad wedi'i fodloni y dylid barnu ei fod wedi'i restru fel gwastraff peryglus;

(b) "heb ei restru fel gwastraff peryglus" yn cyfeirio at y ffaith bod y gwastraff hwnnw heb ei restru fel gwastraff peryglus yn y Rhestr Wastraffoedd, p'un a ydyw wedi'i restru fel gwastraff ai peidio, neu p'un a ydyw fel arall yn wastraff peryglus ai peidio yn unol â'r Rheoliadau hyn;

ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Rhl. 4 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

## Dehongli'n Gyffredinol

**5.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "amlgasgliad" ("*multiple collection*") yr ystyr a roddir gan reoliad 38;

mae i "ardal harbwr" yr un ystyr â "*harbour area*" yn Rheoliadau Sylweddau Peryglus mewn Ardaloedd Harbwr 1987(**13**);

(**11**) OJ Rhif L 226, 6.9.2000, t.3.
(**12**) O.S. 2005/1820 (Cy.148).
(**13**) O.S. 1987/37, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

mae i "argyfwng neu berygl difrifol" ("*emergency or grave danger*") yr ystyr a roddir gan reoliad 61;

ystyr "yr Asiantaeth" ("*the Agency*") yw Asiantaeth yr Amgylchedd;

ystyr "atodlen y cludwyr" ("*schedule of carriers*") yw'r ffurf ar atodlen a nodir yn Atodlen 5 ac y mae'n ofynnol ei chwblhau pan fo mwy nag un cludwr yn cludo, neu i gludo, y llwyth;

ystyr "cludwr" ("*carrier*"), mewn perthynas â llwyth o wastraff peryglus, yw person sy'n cymryd un neu fwy o'r camau canlynol, sef, casglu'r llwyth o'r fangre lle cafodd ei gynhyrchu neu o'r fangre lle mae'n cael ei gadw, ei draddodi i'r traddodai, neu ei gludo wrth ei drosglwyddo o'r fangre honno i'r traddodai;

ystyr "cod chwe digid" ("*six digit code*") yw'r cod chwe digid sy'n cyfeirio at fath o wastraff yn unol â'r Rhestr Wastraffoedd, ac mewn perthynas â gwastraff peryglus, mae'n cynnwys y seren;

mae "cod traddodi" ("*consignment code*") i'w ddehongli'n unol â rheoliad 34(1);

mae "cymysgu" ("*mixing*") i'w ddehongli'n unol â rheoliad 18;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "chwarter" ("*quarter*") yw unrhyw gyfnod o dri mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth, 30 Mehefin, 30 Medi neu 31 Rhagfyr;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**14**);

ystyr "Deddf 1995" ("*the 1995 Act*") yw Deddf yr Amgylchedd 1995(**15**);

ystyr "diwrnod busnes" ("*business day*") yw unrhyw ddiwrnod heblaw—

(a) unrhyw ddydd Sadwrn neu unrhyw ddydd Sul;

(b) unrhyw ddydd Gwener y Groglith neu unrhyw ddydd Nadolig;

(c) unrhyw ddiwrnod sy'n ŵyl banc yng Nghymru a Lloegr o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(**16**); neu

(ch) unrhyw ŵyl gyhoeddus arall;

ystyr "SIC" ("*SIC*") yw'r cyhoeddiad sy'n dwyn y teitl "the UK Standard Industrial Classification of Economic Activities 2003" a baratowyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'i gyhoeddi gan Wasg ei Mawrhydi ar 31 Rhagfyr 2002 ac a weithredwyd ar 1 Ionawr 2003(**17**);

ystyr "esemptiad cofrestredig" ("*registered exemption*") yw gweithgaredd a nodir yn Atodlen 3 i Reoliadau 1994 ac sydd wedi'i gofrestru gyda'r awdurdod cofrestru priodol yn unol â'r Rheoliadau hynny;

ystyr "gwasanaethau brys" ("*emergency services*") yw gwasanaeth yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans y mae'n debygol y byddai'n rhaid iddynt ymateb i argyfwng;

ystyr "gwasanaeth symudol" ("*mobile service*") yw gwasanaeth sy'n cael ei weithredu o fangre ac sy'n cynnwys un neu ragor o'r gweithgareddau canlynol, sef, adeiladu, cynnal a chadw neu drwsio unrhyw fangre arall, neu sy'n cynnwys unrhyw osodion, ffitiadau neu gyfarpar a leolir yn y fangre arall honno, a hwnnw'n wasanaeth y mae gweithredydd y gwasanaeth yn cynhyrchu gwastraff peryglus wrth gynnal y gwasanaeth hwnnw yn y fangre arall honno;

ystyr "gwastraff asbestos" ("*asbestos waste*") yw gwastraff sy'n cynnwys asbestos neu a halogwyd ganddo;

mae i "gwastraff nad yw'n beryglus" ("*non-hazardous waste*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 7;

(**14**) 1990 p. 43.
(**15**) 1995 p. 25.
(**16**) 1971 p.80.
(**17**) ISBN 0116216417.

mae "gwastraff peryglus" ("*hazardous waste*") i'w ddehongli yn unol â rheoliad 6;

ystyr "llong" ("*ship*") yw cwch o unrhyw fath gan gynnwys cwch ymsuddol, cwch arnofiol ac unrhyw strwythur sy'n llwyfan gosodedig neu arnofiol;

mae i "llong y Deyrnas Unedig" yr ystyr a roddir i "*United Kingdom ship*" yn adran 1 o Ddeddf Llongau Masnachol 1995(**18**);

mae "mangre" ("*premises*") yn cynnwys unrhyw long ac unrhyw gyfrwng cludo arall y mae gwasanaeth symudol yn cael ei weithredu ohono;

ystyr "nodyn traddodi" ("*consignment note*"), mewn perthynas â llwyth o wastraff peryglus, yw ffurflen adnabod y mae'n ofynnol iddi fynd gyda'r gwastraff peryglus pan drosglwyddir ef yn unol ag Erthygl 5(3)(**19**) o'r Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus;

ystyr "nodyn traddodi amlgasgliad" ("*multiple collection consignment note*") yw'r nodyn traddodi a nodir yn Atodlen 6 ac y mae'n ofynnol ei ddefnyddio mewn perthynas ag amlgasgliadau;

mae i "person awdurdodedig" yr ystyr a roddir i "*authorised person*" gan adran 108(15) o Ddeddf 1995;

ystyr "Rheoliadau 1994" ("*the 1994 Regulations*") yw Rheoliadau Trwyddedu Rheoli Gwastraff 1994(**20**);

ystyr "Rheoliadau 1996" ("*the 1996 Regulations*") yw Rheoliadau Gwastraff Arbennig 1996(**21**);

ystyr "SEPA" yw Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban;

ystyr "traddodai" ("*consignee*"), mewn perthynas â llwyth o wastraff peryglus, yw'r person y mae'r gwastraff yn cael neu i'w drosglwyddo iddo i'w adfer neu ei waredu;

ystyr "traddodwr" ("*consignor*"), mewn perthynas â llwyth o wastraff peryglus, yw'r person sy'n peri bod y gwastraff hwnnw'n cael ei symud o'r fangre lle cafodd y gwastraff ei gynhyrchu neu lle cedwir ef;

mae i "trwydded gwastraff" yr un ystyr â "*waste permit*" yn Atodlen 4 i Reoliadau 1994; ac

mae i "trwydded rheoli gwastraff" yr ystyr a roddir i "*waste management licence*" gan adran 35(1) o Ddeddf 1990.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae gan yr ymadroddion canlynol (sef yr ymadroddion a ddiffinnir yn Erthygl 1(b) i (g) o'r Gyfarwyddeb Wastraff) yr ystyron sydd ganddynt yn y gyfarwyddeb honno, sef —

ystyr "cynhyrchydd" ("*producer*") yw unrhyw un y mae ei weithgareddau yn cynhyrchu gwastraff ("y cynhyrchydd gwreiddiol" ("*the original producer*")) neu unrhyw un sy'n gwneud gwaith rhagbrosesu, cymysgu neu weithrediadau eraill sy'n golygu bod newid yn natur neu yng nghyfansoddiad y gwastraff hwn;

ystyr "deiliad" ("*holder*") yw cynhyrchydd y gwastraff neu'r person y mae'r gwastraff yn ei feddiant;

ystyr "rheoli" ("*management*") yw casglu, cludo, adfer a gwaredu gwastraff, gan gynnwys goruchwylio gweithrediadau o'r fath ac ôl-gofal ar safleoedd gwaredu;

(**18**) 1995 p. 21.
(**19**) O dan Erthygl 5(3) mae'n ofynnol i'r nodyn traddodi gynnwys y manylion a bennir ym Mhenderfyniad y Comisiwn 94/774/EC (OJ Rhif L 310, 3/12/1994 t. 70; disgwylir y caiff y penderfyniad hwn ei newid ym Mehefin 2005). Ceir y gofynion perthnasol yn Atodlen 4 i'r Rheoliadau hyn.
(**20**) O.S. 1994/1056. Yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 1994/1137; 1995/288, 1995/1950, 1996/634, 1996/972, 1996/1279, 1997/2203, 1998/606, 1998/2746, 2000/1973, 2001/503, 2002/674, 2002/1559 a 2005/883.
(**21**) O.S. 1996/972 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1996/2019, 1997/251, 2001/3148.

ystyr "gwaredu" ("*disposal*") yw unrhyw un o'r gweithrediadau y darperir ar eu cyfer yn Atodiad IIA o'r Gyfarwyddeb Wastraff;

ystyr "adfer" ("*recovery*") yw unrhyw rai o'r gweithrediadau y darperir ar eu cyfer yn Atodiad IIB o'r Gyfarwyddeb Wastraff(**22**); ac

ystyr "casglu" ("*collection*") yw crynhoi, sortio neu gymysgu gwastraff neu unrhyw un neu fwy o'r gweithrediadau hynny, at ddibenion cludo,

ac mae ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

(a) caniateir i unrhyw ddogfen sydd i'w darparu neu i'w rhoi i unrhyw berson (heblaw hysbysiad cosb benodedig o dan Ran 10) gael ei darparu neu ei rhoi i'r person hwnnw ar ffurf electronig os oes modd i'r testun hwnnw gael ei gynhyrchu gan y person hwnnw ar ffurf dogfen sy'n weladwy ac yn ddarllenadwy;

(b) caiff unrhyw ofyniad i wneud neu gadw cofnod neu i ddal gafael ar gofnod neu i gadw cofrestr ei fodloni ar ffurf electronig os oes modd i'r testun hwnnw gael ei gynhyrchu gan y person hwnnw ar ffurf dogfen sy'n weladwy ac yn ddarllenadwy;

(c) caiff unrhyw ofyniad i lofnodi hysbysiad, nodyn traddodi, atodlen y cludwyr neu nodyn traddodi amlgasgliad ei fodloni gan lofnod electronig wedi ei ymgorffori yn y ddogfen; ac

(ch) ystyr "llofnod electronig" ("*electronic signature*") yw data ar ffurf electronig sydd wedi'i atodi i ddata electronig arall neu wedi'i gysylltu'n rhesymegol ag ef ac sy'n gweithredu fel dull dilysu.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Rhl. 5 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

# RHAN 2

## GWASTRAFF PERYGLUS A GWASTRAFF NAD YW'N BERYGLUS

### Gwastraff peryglus

**6.** Yn ddarostyngedig i reoliad 9, mae gwastraff yn wastraff peryglus os yw—

(a) wedi'i restru fel gwastraff peryglus yn y Rhestr Wastraffoedd(**23**);

(b) wedi'i restru mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 62A(1) o Ddeddf 1990; neu

(c) yn swp penodol o wastraff y penderfynwyd yn unol â rheoliad 8 ei fod yn wastraff peryglus,

ac mae'r term "peryglus" ac ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Rhl. 6 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

(**22**) Dehonglwyd ystyron "gwaredu" ("disposal") ac "adfer" ("recovery") gan Lys Cyfiawnder Ewrop yn C-6/00. Dyfarnodd y Llys (ym mharagraff 60 o'r dyfarniad) fel a ganlyn: "…the intention of Annexes II A and II B to the Directive is to list the most common disposal and recovery operations and not precisely and exhaustively to specify all the disposal and recovery operations covered by the Directive.".

(**23**) Mae gwastraffoedd a restrir yn wastraffoedd peryglus yn y Rhestr Wastraffoedd yn cael eu hystyried yn beryglus yn unol ag indent cyntaf Erthygl 1.4 o'r Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus.

### Gwastraff nad yw'n beryglus

**7.** Nid yw'r canlynol yn wastraff peryglus—

(a) gwastraff nad yw'n wastraff peryglus yn unol â rheoliad 6; neu

(b) swp penodol o wastraff y penderfynwyd yn unol â rheoliad 9 ei fod yn wastraff nad yw'n beryglus,

ac mae'r ymadrodd "nad yw'n beryglus" ac ymadroddion cytras i'w dehongli yn unol â hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Rhl. 7 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

### Gwastraff penodol sydd i'w drin fel gwastraff peryglus

**8.**—(1) Caiff y Cynulliad, gan ystyried Atodiadau I, II a III a gwerthoedd terfyn y crynodiad yn y Rhestr Wastraffoedd, benderfynu, mewn achosion eithriadol, bod swp penodol o wastraff yng Nghymru—

(a) nad yw wedi'i restru yn y Rhestr Wastraffoedd;

(b) nad yw wedi'i restru mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 62A(1) o Ddeddf 1990; neu

(c) sy'n cael ei drin, er ei fod o fath sydd wedi'i restru fel gwastraff peryglus yn y Rhestr Wastraffoedd, fel gwastraff nad yw'n beryglus yn unol â rheoliad 9(2),

yn amlygu un neu ragor o'r nodweddion peryglus, ac felly ei fod i'w drin i bob pwrpas fel gwastraff peryglus.

(2) Mae swp penodol o wastraff a gynhyrchwyd yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ac nad yw wedi'i restru fel gwastraff peryglus yn y Rhestr Wastraffoedd ac y penderfynir am y tro gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweithrediaeth yr Alban, neu Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon, yn ôl y digwydd, ei fod yn wastraff peryglus yn unol ag Erthygl 3 o Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd, i'w drin i bob pwrpas fel gwastraff peryglus yng Nghymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Rhl. 8 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

### Gwastraff penodol i'w drin fel gwastraff nad yw'n beryglus

**9.**—(1) Caiff y Cynulliad benderfynu, mewn achosion eithriadol, ar sail tystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd gan y deiliad, a chan ystyried Atodiadau I, II a III a gwerthoedd terfyn crynodiad yn y Rhestr Wastraffoedd, nad yw swp penodol o wastraff yng Nghymru sydd—

(a) wedi'i restru fel gwastraff peryglus yn y Rhestr Wastraffoedd;

(b) wedi'i restru mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 62A(1) o Ddeddf 1990; neu

(c) sy'n cael ei drin, er ei fod o fath nad yw wedi'i restru fel gwastraff peryglus yn y Rhestr Wastraffoedd, fel gwastraff peryglus yn unol â rheoliad 8(2),

yn amlygu unrhyw un o'r nodweddion a restrir yn Atodiad III i'r Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus, ac felly ei fod i'w drin i bob pwrpas fel gwastraff nad yw'n beryglus yng Nghymru.

(2) Mae swp penodol o wastraff a gynhyrchwyd yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon ac sydd wedi'i restru fel gwastraff peryglus yn y Rhestr Wastraffoedd ac y penderfynir am y tro gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweithrediaeth yr Alban, neu Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd

Iwerddon, yn ôl y digwydd, ei fod yn wastraff nad yw'n beryglus yn unol ag Erthygl 3 o Benderfyniad y Rhestr Wastraffoedd, i'w drin, yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad a wneir o dan reoliad 8, i bob pwrpas fel gwastraff nad yw'n beryglus yng Nghymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I9** Rhl. 9 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

### Darpariaethau sy'n gyffredin i reoliadau 8 a 9

**10.**—(1) Caiff y Cynulliad ddirymu penderfyniad a wnaed o dan reoliad 8 neu 9.

(2) Rhaid i'r Cynulliad, cyn gwneud penderfyniad o dan reoliad 8 neu 9 neu ddirymu penderfyniad o'r fath, ac eithrio os yw o'r farn nad yw'n briodol i wneud hynny oherwydd natur argyfwng neu berygl difrifol, ymgynghori â'r canlynol—

(a) y cyrff angenrheidiol;

(b) deiliad y swp penodol o wastraff; ac

(c) unrhyw berson arall y mae'n ymddangos iddo—

(i) bod ganddo fuddiant yn y gwastraff penodol; neu

(ii) yr effeithir arno fel arall yn uniongyrchol gan y penderfyniad.

(3) Rhaid i'r Cynulliad roi hysbysiad o unrhyw benderfyniad a wnaed o dan reoliad 8 neu 9 neu ddirymiad a wnaed o dan reoliad 8 neu 9 i'r canlynol—

(a) y cyrff angenrheidiol;

(b) deiliad y swp o wastraff penodol o dan sylw; ac

(c) unrhyw berson yr ymgynghorodd ag ef yn unol â pharagraff (2)(c).

(4) Rhaid rhoi rhesymau yn yr hysbysiad dros y penderfyniad neu'r dirymiad, yn ôl y digwydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I10** Rhl. 10 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

### Y cyrff angenrheidiol

**11.** At ddibenion y Rhan hon, dyma'r “cyrff angenrheidiol”—

(a) yr Asiantaeth;

(b) SEPA;

(c) Yr Ysgrifennydd Gwladol;

(ch) Gweithrediaeth yr Alban;

(d) Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon(**24**);

(dd) Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch; ac

(e) unrhyw gorff y mae'n ymddangos i'r Cynulliad ei fod yn cynrychioli personau y mae'n debygol yr effeithir arnynt gan y penderfyniad perthnasol neu'r dirymiad perthnasol o benderfyniad, yn ôl y digwydd.

(**24**) Mae Adran yr Amgylchedd yng Ngogledd Iwerddon yn cynnwys ei hasiantaeth weithredol, y Gwasanaeth Treftadaeth Amgylcheddol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I11** Rhl. 11 mewn grym ar 6.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(a)**

# RHAN 3

## CYMHWYSO RHANNAU 4 I 10

### Cymhwyso cyffredinol ar Rannau 4 i 10

**12.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wastraff peryglus.

(2) Ac eithrio'r darpariaethau yn rheoliad 13 (cymhwyso i wastraff asbestos) ac 14 (cymhwyso i ffracsiynau a gesglir ar wahân), nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wastraff domestig(**25**) .

(3) Nid oes dim sydd yn Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn (symud gwastraff peryglus) yn gymwys mewn perthynas â thrawslwytho gwastraff y mae darpariaethau Rheoliad y Cyngor 259/93/EEC(**26**), heblaw Teitl III o'r rheoliad hwnnw, yn gymwys iddo.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wastraff peryglus yng Nghymru er gwaethaf y ffaith bod gwastraff—

(a) wedi cael ei gynhyrchu ar fangre neu ei symud oddi yno yn yr Alban, Lloegr, Gogledd Iwerddon neu Gibraltar; neu

(b) yn cael ei gludo, neu i'w gludo, o fangre yng Nghymru i fangre yn un o'r lleoedd hynny.

(5) Er mwyn osgoi amheuaeth, wrth eu cymhwyso—

(a) i wastraff llongau, mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i unrhyw long;

(b) i ddyfroedd mewnol a môr tiriogaethol y Deyrnas Unedig sy'n cydffinio â Chymru, mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys, heb leihau effaith paragraff (3), i lwyth o wastraff a gludir mewn unrhyw long,

ym mhob achos (p'un a yw'r llong yn llong y Deyrnas Unedig neu fel arall ac, os llong y Deyrnas Unedig ydyw, p'un a gofrestrwyd hi yng Nghymru neu fel arall).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I12** Rhl. 12 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Gwastraff asbestos

**13.**—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wastraff asbestos sy'n wastraff domestig ac eithrio i'r graddau y byddent, heblaw am y paragraff hwn, yn gosod rhwymedigaethau ar berson y mae paragraff (2) yn gymwys iddo.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i berson sydd yn gynhyrchydd gwreiddiol y gwastraff domestig a hefyd naill ai—

(a) i berson sy'n preswylio yn y fangre ddomestig lle ceir y gwastraff asbestos; neu

(**25**) Mae Erthygl 1(5) o'r Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus wedi darparu ar gyfer rheolau penodol sydd i'w gwneud gan y Gymuned Ewropeaidd gan ystyried natur benodol gwastraff domestig; ni chafodd y cyfryw reolau, ar ddyddiad gwneud y Rheoliadau hyn, eu mabwysiadu.

(**26**) OJ Rhif L 30, 6.2.1993, t.1.

(b) i berson sy'n gweithredu ar ran person o'r fath yn ddi-dâl.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu mewn perthynas â gwastraff asbestos nad yw'n wastraff domestig a gynhyrchir yn ystod unrhyw rai o weithgareddau adeiladu, addasu, trwsio a chynnal a chadw (gan gynnwys gwaith strwythurol) neu ddymchwel mangre ddomestig neu unrhyw ran ohoni, fel y byddant yn trin unrhyw gontractiwr sy'n cael ei gymryd ymlaen gan feddiannydd domestig—

(i) fel y cynhyrchydd; a,

(ii) os nad yw'r contractiwr yn cymryd person arall ymlaen fel traddodwr, fel y traddodwr,

o'r gwastraff asbestos heb gynnwys y meddiannydd.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I13** Rhl. 13 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**Ffracsiynau domestig a gasglwyd ar wahân**

**14.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ffracsiynau domestig a gasglwyd ar wahân, sef, gwastraff peryglus—

(a) sy'n wastraff domestig; a

(b) a gasglwyd o'r fangre lle cynhyrchwyd ef ar wahân i'r casgliad o wastraff arall o'r fangre honno.

(2) At ddibenion paragraff (1), ceir ystyried bod gwastraff peryglus wedi'i gasglu ar wahân i'r casgliad o wastraff arall er gwaethaf y ffaith iddo gael ei gasglu ar yr un pryd neu ar yr un cerbyd neu'r ddau, ar yr amod nad yw'r gwastraff peryglus yn cael ei gymysgu gyda'r gwastraff arall.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i ffracsiynau a gesglir ar wahân.

(4) Ni fydd dim yn y Rheoliadau hyn yn gymwys i ffracsiynau a gesglir ar wahân tan y caiff y gwastraff hwnnw ei symud o'r fangre lle cafodd ei gynhyrchu i fangre ar gyfer casglu, gwaredu neu adfer.

(5) Mae'r sefydliad neu'r ymgymeriad sy'n derbyn y gwastraff hwnnw yn y fangre honno i'w drin fel cynhyrchydd y gwastraff at ddibenion y Rheoliadau hyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I14** Rhl. 14 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

**Gwastraff ymbelydrol**

**15.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys o ran gwastraff ymbelydrol o fewn ystyr adran 2 o Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993(**27**)—

(a) pan fydd yn esempt am y tro rhag gofynion—

(i) adran 13 (gwaredu gwastraff ymbelydrol); neu

(ii) adran 14 (cronni gwastraff ymbelydrol),

o'r Ddeddf honno gan adran 15 o'r Ddeddf honno neu yn unol â hi; a

(b) pan fydd un neu fwy o nodweddion peryglus yn codi heb fod o'i natur ymbelydrol.

(**27**) 1993 p. 12.

(2) Er gwaethaf rheoliad 2(1)(b)(ii), trinnir gwastraff ymbelydrol y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo fel gwastraff at ddibenion y Rheoliadau hyn, ac yn unol â hynny trinnir ef fel gwastraff peryglus ac mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r gwastraff hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I15** Rhl. 15 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Gwastraff amaethyddol

**16.**—(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wastraff amaethyddol cyn **[**[F1]15 Mai 2007**]**, ond maent yn gymwys ar ac ar ôl y dyddiad hwnnw i wastraff amaethyddol pryd bynnag y daeth yn wastraff.

(2) At ddibenion y Rheoliad hwn, ystyr "gwastraff amaethyddol" yw gwastraff o fangre a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth o fewn ystyr Deddf Amaethyddiaeth 1947(**28**).

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn rhl. 16 wedi eu hamnewid (15.5.2006) gan The Waste Management (England and Wales) Regulations 2006 (O.S. 2006/937), rhlau. 1(2), **11(2)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I16** Rhl. 16 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Gwastraff mwyngloddiau a chwareli

**17.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i wastraff o fwynglawdd neu chwarel cyn **[**[F2]15 Mai 2007**]**, ond maent yn gymwys ar ac ar ôl y dyddiad hwnnw i'r gwastraff hwnnw pa bryd bynnag y daeth yn wastraff.

**Diwygiadau Testunol**

**F2** Geiriau yn rhl. 17 wedi eu hamnewid (15.5.2006) gan The Waste Management (England and Wales) Regulations 2006 (O.S. 2006/937), rhlau. 1(2), **11(3)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I17** Rhl. 17 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

# RHAN 4

## CYMYSGU GWASTRAFF PERYGLUS

### Ystyr cymysgu gwastraff peryglus

**18.**—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, ystyrir bod gwastraff peryglus o unrhyw ddisgrifiad wedi'i gymysgu os cymysgwyd ef â'r canlynol—

(a) categori gwahanol o wastraff peryglus;

(**28**) 1947 p.48 (*gweler* adran 109(3)).

(b) gwastraff nad yw'n beryglus; neu

(c) unrhyw sylwedd neu ddeunydd arall.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I18** Rhl. 18 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Gwahardd cymysgu gwastraff peryglus heb drwydded

**19.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni chaiff unrhyw sefydliad neu ymgymeriad sy'n gwaredu neu'n adfer gwastraff peryglus, neu sy'n cynhyrchu, casglu neu gludo gwastraff peryglus gymysgu unrhyw wastraff peryglus.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys fel y byddai'n gwahardd proses a ddefnyddir i gynhyrchu gwastraff ac sy'n golygu cynhyrchu gwastraffoedd cymysg, sef proses heblaw un sy'n cymysgu gwastraff gydag unrhyw wastraff, sylwedd neu ddeunydd arall, sy'n golygu—

(a) newid yn natur neu gyfansoddiad y gwastraff hwnnw; neu

(b) cynhyrchu gwastraff arall.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i'r graddau y mae'r cymysgu'n rhan o weithrediad gwaredu neu adfer a'i fod wedi'i awdurdodi gan drwydded gwastraff neu esemptiad cofrestredig, ac yn cael ei gyflawni yn unol â gofynion y drwydded honno neu'r esemptiad hwnnw (sut bynnag y mynegir y gofynion hynny).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I19** Rhl. 19 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Dyletswydd i wahanu gwastraffoedd a gymysgwyd

**20.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i'r deiliad—

(a) pan fo'r gwastraff peryglus wedi'i gymysgu heblaw o dan ac yn unol â thrwydded gwastraff neu esemptiad cofrestredig, p'un ai gan y deiliad neu gan ddeiliad blaenorol; a

(b) pan fo'r gwahanu—

(i) yn dechnegol ac yn economaidd ddichonadwy; a

(ii) yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio ag amodau'r Gyfarwyddeb Wastraff.

(2) Rhaid i'r deiliad drefnu bod gwaith gwahanu'r gwastraff yn cael ei wneud yn unol â thrwydded gwastraff neu esemptiad cofrestredig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(3) Yn y Rheoliad hwn ystyr "gwahanu" yw gwahanu gwastraff oddi wrth unrhyw wastraff, sylwedd neu ddeunydd arall a gymysgwyd ag ef.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I20** Rhl. 20 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

# RHAN 5

## HYSBYSU'R FANGRE

### Gofyniad i hysbysu'r fangre

**21.**—(1) Pan fo gwastraff peryglus yn cael ei gynhyrchu mewn unrhyw fangre heblaw mangre esempt neu'n cael ei symud oddi yno, rhaid hysbysu'r fangre i'r Asiantaeth yn unol â gofynion y Rhan hon.

(2) Mae mangre a hysbyswyd yn briodol i'r Asiantaeth yn unol â'r Rhan hon yn fangre a hysbyswyd at ddibenion y Rheoliadau hyn am y cyfnod o ddeuddeg mis ("cyfnod yr hysbysiad") sy'n dechrau ar yr amser effeithiol ac yn dod i ben ar ddiwedd diwrnod olaf y cyfnod hwnnw o ddeuddeg mis.

(3) Mae'n ddyletswydd ar gynhyrchydd gwastraff peryglus i hysbysu'r fangre berthnasol yn unol â rheoliadau 24 a 26 os nad yw wedi'i hysbysu fel arall eisoes.

(4) Heb leihau effaith paragraff (3), caiff traddodwr, yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yn rheoliad 25, hysbysu mangre'r safle yn unol â'r rheoliad hwnnw a rheoliad 26.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I21** Rhl. 21 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I22** Rhl. 21 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Gwahardd symud gwastraff peryglus o fangre oni roddwyd hysbysiad neu onid yw'n esempt

**22.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), ni chaiff neb symud, na pheri symud, na chludo gwastraff peryglus o unrhyw fangre, onid yw'r fangre honno, pan symudir y gwastraff, yn fangre a hysbyswyd neu'n fangre esempt.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i symud neu gludo gwastraff peryglus o unrhyw fangre os oedd y gwastraff hwnnw wedi'i ddyddodi yn y fangre honno yn groes i adran 33 o Ddeddf 1990 heblaw drwy honni cydymffurfedd â thrwydded rheoli gwastraff neu esemptiad cofrestredig.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I23** Rhl. 22 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I24** Rhl. 22 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Esemptiad rhag y gofyniad i hysbysu

**23.**—(1) Nid oes angen hysbysu mangre esempt i'r Asiantaeth yn unol â'r Rhan hon.

(2) Mae mangre o ddisgrifiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), i'r graddau a bennir yn y paragraff hwnnw, yn fangre esempt am y tro—

(a) os cedwir y terfyn cymwys (heblaw mewn perthynas â llong); a

(b) os na symudir gwastraff peryglus o'r fangre gan unrhyw berson heblaw—

(i) cludwr cofrestredig; neu

(ii) cludwr sy'n esempt rhag y gofyniad i gofrestru fel cludwr cofrestredig yn unol â Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989(**29**).

(3) Dyma'r disgrifiadau o fangreoedd—

(a) mangre swyddfa, i'r graddau bod y gwastraff peryglus yn deillio wrth ddefnyddio'r fangre fel swyddfa;

(b) mangre siop, i'r graddau bod y gwastraff peryglus yn deillio wrth ddefnyddio'r fangre fel siop;

(c) mangre sy'n cael ei defnyddio ar gyfer amaethyddiaeth o fewn ystyr Deddf Amaethyddiaeth 1947(**30**), i'r graddau bod gwastraff peryglus yn deillio wrth ddefnyddio'r fangre ar gyfer amaethyddiaeth;

(ch) mangre o ddisgrifiad a restrir—

(i) ym mharagraffau (a) i (e) o adran 75(5) o Ddeddf 1990; neu

(ii) yn Atodlen 1 i Reoliadau Gwastraff a Reolir 1992(**31**),

(d) mangre lle mae cyfarpar gwastraff trydanol ac electronig yn cael ei gasglu, i'r graddau y mae'r fangre yn cael ei defnyddio at y diben hwnnw;

(dd) mangre sy'n cael ei defnyddio gan bractis deintyddol, milfeddygol neu feddygol i'r graddau y mae'r fangre yn cael ei defnyddio at y diben hwnnw; ac

(e) unrhyw long.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I25** Rhl. 23 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I26** Rhl. 23 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Hysbysiad gan gynhyrchydd

**24.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), rhaid i gynhyrchydd gwastraff peryglus hysbysu mangre'r safle i'r Asiantaeth neu, os yw'n gweithredu gwasanaeth symudol ac yn dewis trin mangre'r gwasanaeth fel y fangre berthnasol mewn perthynas ag unrhyw fangre gysylltiedig, mangre'r gwasanaeth—

(a) cyn y tro cyntaf y mae'n cynhyrchu gwastraff peryglus ar fangre'r safle, neu, yn achos hysbysu mangre'r gwasanaeth ar unrhyw un o'r mangreoedd perthnasol ar safle, yn ôl gofynion yr achos;

(b) os oedd y fangre berthnasol cyn hynny yn fangre a hysbyswyd, ond bod cyfnod yr hysbysiad wedi dod i ben, cyn y tro nesaf y bydd yn cynhyrchu gwastraff peryglus ar fangre'r safle neu unrhyw un o fangreoedd cysylltiedig, yn ôl gofynion yr achos;

(c) pan fo'r fangre yn peidio â bod yn fangre esempt, cyn y tro nesaf y bydd yn cynhyrchu gwastraff peryglus ar y safle honno; neu

(ch) os bydd y fangre a hysbyswyd yn peidio â bod yn fangre'r gwasanaeth mewn perthynas ag unrhyw fangre gysylltiedig o ran mynd dros y terfynau cymwys y darperir ar eu cyfer yn rheoliad 30 mewn perthynas â'r fangre gysylltiedig honno, cyn mynd dros y terfynau hynny.

(**29**) 1989 p.14.
(**30**) 1947 p.48.
(**31**) O.S. 1992/588. Diwygiwyd rheoliad 2 gan reoliad 24(3) o O.S. 1994/1056; mae diwygiadau eraill i O.S. 1992/588 nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(2) Os na ellir yn rhesymol ragweld y bydd gweithgareddau'r cynhyrchydd yn cynhyrchu gwastraff peryglus, mae paragraff (1) yn gymwys fel pe rhoddid yn lle "cyn" bob tro y mae'n digwydd, "cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol wedyn".

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I27** Rhl. 24 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I28** Rhl. 24 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Hysbysiad gan draddodwr

**25.**—(1) Rhaid i draddodwr sy'n bwriadu symud, neu beri symud, unrhyw wastraff peryglus o unrhyw fangre hysbysu'r fangre honno i'r Asiantaeth—

(a) os y fangre honno yw mangre'r safle ac os na wyddys pwy yw'r cynhyrchydd, neu os na ellir dod o hyd iddo heb anhwylustod afresymol neu dreuliau afresymol; neu

(b) os na chynhyrchwyd y gwastraff ar y fangre honno.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I29** Rhl. 25 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I30** Rhl. 25 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Darpariaethau cyffredin ynghylch hysbysiadau

**26.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys p'un a roddir hysbysiad gan neu ar ran y cynhyrchydd neu'r traddodwr.

(2) Gellir rhoi hysbysiad o'r fangre berthnasol yn ysgrifenedig neu dros y ffôn.

(3) Ni cheir rhoi hysbysiad heb gydsyniad yr Asiantaeth fwy nag un mis ymlaen llaw i'r amser y bydd yn effeithiol.

(4) Rhaid i'r person sy'n rhoi'r hysbysiad roi'r wybodaeth ganlynol i'r Asiantaeth—

(a) ei enw a'i gyfeiriad a manylion sut y gellir cysylltu ag ef, ac os yw'n hysbysu ar ran person arall, enw a chyfeiriad y person hwnnw a manylion sut y gellir cysylltu â'r person hwnnw;

(b) cyfeiriad y fangre sy'n cael ei hysbysu;

(c) dosbarthiad y fangre yn unol â'r SIC; ac

(ch) unrhyw wybodaeth arall y gall yr Asiantaeth yn rhesymol ofyn amdani mewn cysylltiad â'i swyddogaethau monitro symud gwastraff peryglus, neu arolygu yn unol â rheoliad 56 o'r Rheoliadau hyn neu baragraff 13 o Atodlen 4 i Reoliadau 1994.

(5) Os bydd unrhyw newidiadau yn yr wybodaeth sy'n cael ei darparu yn unol â pharagraff (4) yn ystod y cyfnod hysbysu, nid yw'r fangre i'w thrin fel mangre sydd wedi'i hysbysu tan fydd yr Asiantaeth wedi cael yr wybodaeth sydd wedi'i diweddaru yn y fath fodd ag i fodloni gofynion paragraff (4).

(6) Caiff yr Asiantaeth ragnodi model wedi ei fformadu i hysbysu mangre yn ysgrifenedig ac, os rhagnodir fformat am y tro yn unol â'r paragraff hwn—

(a) rhaid i'r Asiantaeth gyhoeddi'r model wedi'i fformadu ar ei gwefan ac mewn modd arall y mae'n ystyried sy'n briodol i hysbysu personau y mae'n ofynnol iddynt hysbysu'r fangre o'i gynnwys; a

(b) nid yw'r Asiantaeth yn gorfod ystyried unrhyw hysbysiad oni chafodd ei wneud yn y model hwnnw a fformadwyd, neu mewn fformat ag effaith sylweddol debyg.

(7) Rhaid i'r person sy'n hysbysu dalu i'r Asiantaeth y ffi berthnasol sy'n daladwy ar gyfer hysbysu'r fangre ar yr un pryd ag y rhoddir yr hysbysiad (ond nid oes unrhyw ffioedd yn daladwy mewn perthynas â gwybodaeth a ddarperir yn unol â pharagraff (5)).

(8) Os gofynnir iddi wneud hynny, rhaid i'r Asiantaeth hysbysu person sy'n ddeiliad gwastraff peryglus neu sy'n cynnal busnes traddodi neu gasglu gwastraff peryglus p'un a yw unrhyw fangre lle mae'r person hwnnw yn bwriadu symud, peri symud neu gludo unrhyw wastraff peryglus yn fangre a hysbyswyd, ac os felly, y manylion sydd gan yr Asiantaeth ynghylch y person a hysbysodd y fangre ac amser effeithiol yr hysbysiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I31** Rhl. 26 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I32** Rhl. 26 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Cod mangre

**27.**—(1) Pan hysbysir mangre berthnasol yn briodol i'r Asiantaeth, a bod yr Asiantaeth yn cael y ffi berthnasol, rhaid iddi wrth ei derbyn ddyroddi i'r person sy'n hysbysu god cofrestru, sef cod unigryw ar gyfer y fangre honno ("cod mangre").

(2) Caniateir i'r cod mangre gynnwys llythrennau, Rhif au neu symbolau, neu unrhyw gyfuniad o lythrennau, Rhif au a symbolau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I33** Rhl. 27 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I34** Rhl. 27 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Yr amser effeithiol

**28.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) o'r Rheoliad hwn a heb leihau effaith rheoliad 26(3), yr amser y mae'r hysbysiad yn cymryd effaith ("yr amser effeithiol") yw—

(a) os oes cyfnod o hysbysiad blaenorol yn parhau mewn grym, pan ddaw'r cyfnod hwnnw i ben;

(b) os yw'r person sy'n rhoi'r hysbysiad yn gofyn am ddyddiad ar gyfer cychwyn, ar ddechrau'r dyddiad y gofynnwyd amdano;

(c) ym mhob achos arall, ar ddechrau'r pedwerydd diwrnod busnes ar ôl y diwrnod y rhoddir yr hysbysiad.

(2) Ni all hysbysiad ddod yn effeithiol cyn yr amser y bydd yr Asiantaeth yn dyroddi'r cod mangre ar gyfer y cyfnod y mae'r hysbysiad yn ymdrin ag ef.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I35** Rhl. 28 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I36** Rhl. 28 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Gwasanaethau symudol

**29.**—(1) Os yw cynhyrchydd gwastraff peryglus yn gweithredu gwasanaeth symudol, y fangre berthnasol mewn perthynas ag unrhyw fangre gysylltiedig yw mangre y mae paragraff (2) yn gymwys iddi ("mangre'r gwasanaeth") tra gweithredir y gwasanaeth symudol hwnnw o fewn y terfynau cymwys ac yr ufuddheir i'r cyfyngiad deiliadaeth o ran pob mangre gysylltiedig.

(2) Dyma'r mangreoedd y mae'r paragraff hwn yn gymwys iddynt—

(a) y fangre lle gweithredir y gwasanaeth symudol; neu

(b) os gweithredir y gwasanaeth symudol o fwy nag un set o fangreoedd, prif le busnes y cynhyrchydd.

(3) Os yw unrhyw fangre—

(a) yn fangre safle ar wahân i'r gwasanaeth symudol; a hefyd

(b) yn fangre mewn perthynas â'r gwasanaeth symudol,

caniateir gwneud un hysbysiad unigol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I37** Rhl. 29 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I38** Rhl. 29 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Y terfynau cymwys

**30.**—(1) Y terfynau cymwys ar gyfer—

(a) gwasanaeth symudol yw bod cyfanswm maint y gwastraff peryglus a gynhyrchir wrth gynnal y gwasanaeth hwnnw mewn unrhyw set unigol o fangreoedd cysylltiedig yn llai na 200kg mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis; a

(b) unrhyw fangre esempt yw bod cyfanswm y gwastraff peryglus a gynhyrchwyd yn y fangre yn llai na 200kg mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeg mis.

(2) Mae gwastraff peryglus a gynhyrchir ar fangre siop gan gwsmeriaid y meddiannydd i'w drin fel pes cynhyrchwyd gan y meddiannydd at ddibenion y Rheoliad hwn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I39** Rhl. 30 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I40** Rhl. 30 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Cyfyngiad y ddeiliadaeth

**31.** Cyfyngiad y ddeiliadaeth yw nad yw gweithredydd y gwasanaeth symudol naill ai'n berchen nac yn feddiannydd y mangreoedd cysylltiedig hynny.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I41** Rhl. 31 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I42** Rhl. 31 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Dehongli'n gyffredinol Ran 5

**32.** Yn y Rhan hon—

mae i “amser effeithiol” (“*effective time*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 28;

ystyr “cludwr cofrestredig” (“*registered carrier*”) yw cludwr a gofrestrwyd yn unol â Deddf Rheoli Llygredd (Diwygio) 1989(**32**);

mae i “cyfnod hysbysu” (“*period of notification*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 21(2);

ystyr “Deddf 1963” (“*the 1963 Act*”) yw Deddf Swyddfeydd, Siopau a Mangreoedd Rheilffyrdd 1963(**33**);

ystyr “ffi berthnasol” (“*relevant fee*”) yw'r ffi sy'n daladwy yn ôl cynllun a wnaed yn unol ag adran 41 o Ddeddf 1995;

mae i “cyfarpar gwastraff trydanol ac electronig” yr ystyr a roddir i “*waste electrical and electronic equipment*” yng Nghyfarwyddeb 2002/96/EC(**34**);

mae i “mangre a hysbyswyd” (“*notified premises*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 21(2);

ystyr “mangre berthnasol” (“*relevant premises*”) yw'r fangre y mae'n ofynnol i'r cynhyrchydd neu'r traddodwr ei hysbysu;

mae i “mangre esempt” (“*exempt premises*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 23;

mae i “mangre gwasanaeth” (“*service premises*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 29(1);

ystyr “mangre gysylltiedig” (“*related premises*”) yw mangre safle lle mae gwasanaeth symudol yn cynhyrchu gwastraff y mae mangre safle yn fangre berthnasol ar ei gyfer yn unol â rheoliad 29;

ystyr “mangre safle” (“*site premises*”) yw mangre lle mae gwastraff peryglus yn cael ei gynhyrchu;

mae i “mangre siop” yr ystyr a roddir i “*shop premises*” gan adran 1(3) o Ddeddf 1963; a

mae i “mangre swyddfa” yr ystyr a roddir i “office premises” gan adran 1(2)(a) o Ddeddf 1963.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I43** Rhl. 32 mewn grym ar 6.7.2005 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I44** Rhl. 32 mewn grym ar 16.7.2005 mewn grym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

(**32**) 1989 p.14.
(**33**) 1963 p.41.
(**34**) OJ Rhif L 037, 13.12.2003, t.24.

# RHAN 6

## SYMUD GWASTRAFF PERYGLUS

*Codau traddodi*

### Safon codio

**33.**—(1) Dyletswydd yr Asiantaeth o dro i dro yw dynodi safon, ac ar bob adeg gynnal mewn grym ddynodiad ar safon, (y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel "safon codio"), sy'n darparu ar gyfer cyfansoddiad codau traddodi at ddibenion y Rhan hon.

(2) Rhaid i'r safon codio alluogi pob llwyth o wastraff peryglus gael cod traddodi unigryw.

(3) Rhaid i'r safon ddarparu ar gyfer codau gwahanol i nodiadau traddodi a gwblhawyd mewn perthynas â gwastraff peryglus a symudwyd drwy biblinell yn unol â rheoliad 41, pan fo pibellau yn para am fwy na chwarter.

(4) Rhaid i'r safon ddarparu ar gyfer codau traddodi gael eu ffurfio o lythrennau, Rhif au neu symbolau, neu unrhyw gyfuniad o lythrennau, Rhif au a symbolau.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I45** Rhl. 33 mewn grym ar 16.7.2005, gweler **rhl. 1(2)(b)**

### Codau traddodi

**34.**—(1) Dyletswydd—

(a) y cynhyrchydd, o ran—

(i) llwyth o wastraff peryglus sydd i'w symud o fangre (heblaw llong) lle mae'r gwastraff yn cael ei gynhyrchu;

(ii) gwastraff peryglus sydd i'w symud drwy biblinell o fangre (heblaw llong) mewn achos y mae rheoliad 41 yn gymwys iddo; neu

(iii) gwastraff peryglus sydd i'w ddyddodi o fewn cwrtil y fangre lle'i cynhyrchwyd;

(b) meistr y llong, o ran unrhyw wastraff peryglus sy'n cael ei symud o long yn ardal harbwr (gan gynnwys gwastraff a ollyngwyd drwy ddamwain ar dir sy'n gyfagos â'r llong); ac

(c) y traddodwr, o ran unrhyw lwyth arall o wastraff peryglus,

yw rhoi i'r gwastraff peryglus god unigryw yn unol â'r safon codio sydd mewn grym ar y pryd.

(2) Y cod a roddir yn unol â pharagraff (1) fydd y cod traddodi gwastraff peryglus o dan sylw at ddibenion y Rheoliadau hyn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

